# BBC
# TRWYDDEDU TELEDU

# POLISI AD-DALIADAU

# Polisi Ad-daliadau BBC Trwyddedu Teledu

## 1. Pwrpas

Amlinellu polisi'r BBC (fel y'i cymhwysir gan Drwyddedu Teledu) mewn perthynas ag ad-dalu taliadau ffi'r drwydded.

Mae "Trwyddedu Teledu" yn cyfeirio at y BBC a chwmnïau dan gontract i'r BBC sy'n mynd ati i weinyddu a gorfodi'r system trwyddedu teledu. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgaredd hwn dan gontract i Capita Business Services Ltd ('Capita'). Mae hyn yn cynnwys prosesu ad-daliadau. Mae'r BBC yn awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â'i swyddogaethau trwyddedu teledu ac mae'n cadw cyfrifoldeb yn gyffredinol.

## 2. Terfynau

Mae Adran 365(3) Deddf Cyfathrebu 2003 yn datgan bod hawl gan y BBC, yn y cyfryw achosion y gall eu pennu, i ad-dalu symiau a dderbyniwyd yn rhinwedd Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004.

Felly mae disgresiwn eang gan y BBC, o ran pennu polisi ac wrth ystyried a phennu hawliadau am ad-daliadau, gan gynnwys a ddylid derbyn hawliad am ad-daliad ai peidio, a ddylid rhoi ad-daliad a gwerth unrhyw ad-daliad. Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei arfer yn unol â'r polisi hwn.

## 3. Polisi

Caiff y polisi hwn yn gymhwyso yn unol â gofynion cyfraith weinyddol gyffredinol, gan gynnwys ystyried amgylchiadau, a chanlyniadau, bod yn gyson a phwyso a mesur buddiannau'r rhai y mae'r penderfyniadau yn effeithio arnynt a gwrando ar ddadleuon ynghylch a ddylid cael eithriadau.

Mae'n debygol y bydd achosion lle bydd angen gwneud penderfyniad mewn perthynas ag amgylchiadau penodol yr achos.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob cais am ad-daliad.

O'r 1$^{af}$ Ebrill 2017, fe newidiodd y polisi i roi ad-daliadau misol ym mhob senario ad-dalu. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y polisi ad-dalu misol newydd, rhaid i'r drwydded un ai fod mewn grym (yn weithredol) adeg y cais, neu os cafodd ei chanslo'n flaenorol, bod â dyddiad dod i ben diwygiedig ar neu ar ôl 1$^{af}$ Ebrill 2017

Ar gyfer trwyddedau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod, mae'r polisi blaenorol yn gymwys, lle rhoddwyd ad-daliadau chwarterol ar gyfer rhai senarios[1].

### 3.1 Tystiolaeth angenrheidiol

Ni fydd ad-daliadau yn cael eu hystyried oni bai fod digon o dystiolaeth wedi'i darparu, yn amodol ar yr eithriadau isod.

---

[1] Gweler senarios 1 a 2 yn nhabl 3.6 ar dudalen 8.

Mae Tabl 1 isod yn amlinellu eithriadau i'r gofynion tystiolaethol cyffredinol:

| TABL 1 | |
|---|---|
| **Eithriad i'r rheol gyffredinol** | **Tystiolaeth angenrheidiol** |
| Ad-daliadau ar gyfer 1, 2 neu 3 mis o gyfnod y drwydded bresennol | Does dim angen tystiolaeth |
| Marwolaeth | Gellir gofyn i berson sy'n datgan ei fod yn delio â materion deiliad trwydded ymadawedig neu dalwr ddarparu prawf dogfennol megis tystysgrif marwolaeth, copi o grant gweinyddu neu lythyrau gweinyddu perthnasol. |

Os bydd amheuaeth ynghylch gwirionedd cais am ad-daliad, efallai y gofynnir am dystiolaeth ychwanegol.

Er gwaethaf yr uchod, lle bo'n ofynnol efallai y gofynnir o hyd am dystiolaeth mai'r ymgeisydd yw'r unigolyn cywir i dalu'r ad-daliad iddo/iddi.

## 3.2 Hanes ad-daliadau i gwsmer

Gall y BBC (a Thrwyddedu Teledu) roi ystyriaeth i geisiadau gan gwsmer am ad-daliadau yn y gorffennol wrth ystyried a ddylid rhoi ad-daliadau yn y dyfodol.

## 3.3 Y cyfnod o amser y mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am ad-daliad

Rhaid derbyn ceisiadau am ad-daliad o fewn dwy flynedd i ddyddiad dod i ben y drwydded a gyflwynwyd yn fwyaf diweddar, sef yr un y mae'r ad-daliad yn cael ei hawlio yn ei erbyn.

Mewn achosion lle mae ad-daliad 'prynwyd trwy gamgymeriad' yn ddyledus oherwydd camgymeriad ar ran Trwyddedu Teledu, gellir caniatáu'r hawliad am uchafswm o chwe blynedd o ddyddiad dod i ben y drwydded. Yn ogystal, gall y BBC ddatblygu polisi ar wahân i ymdrin ag amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd terfyn amser o ddwy flynedd ar gyfer derbyn cais am ad-daliad yn gymwys o hyd.

## 3.4 Y cyfnod o amser y gellir talu ad-daliadau ar ei gyfer

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyfnod o amser y gellir talu ad-daliadau yn ddibynnol ar y math o gamgymeriad (h.y. taliadau am gyfnod trwyddedu a ddigwyddodd yn y gorffennol).

Dylid nodi y gall camgymeriad ar ran Trwyddedu Teledu gynnwys methu darparu gwybodaeth yn gyhoeddus am gonsesiynau sydd ar gael neu am newidiadau polisi perthnasol a fydd yn arwain at newidiadau i ofynion trwyddedu. Gall camgymeriad ar ran cwsmer gynnwys methu sicrhau a oes angen trwydded neu brynu trwydded ddyblyg pan nad oes angen trwydded.

Gweler Tabl 2 isod am fanylion terfynau amser:

| TABL 2 |
|---|

| Math o gamgymeriad | Y cyfnod mwyaf o amser y gellir talu ad-daliadau ar ei gyfer |
|---|---|
| Trwyddedau a brynwyd trwy gamgymeriad (camgymeriad Trwyddedu Teledu) | 6 blynedd (sylwer bod hyn yn 6 blynedd galendr o pan dderbynnir y cais, beth bynnag fo dyddiadau dod i ben y drwydded). |
| Trwyddedau a brynwyd trwy gamgymeriad (camgymeriad y cwsmer) | 2 flynedd (sylwer bod hyn yn 2 flynedd galendr o pan dderbynnir y cais, beth bynnag fo dyddiadau dod i ben y drwydded). |
| Prynu trwydded lawn pan oeddynt yn gymwys i gael trwydded i bobl ddall | Efallai y gellir talu ad-daliad gyn belled yn ôl ag 1 Ebrill 2000 (sef y dyddiad y cyflwynwyd y consesiwn i bobl ddall). |
| Prynu trwydded lawn pan oeddynt yn gymwys i gael trwydded Dros 75 am ddim | Efallai y gellir talu ad-daliad gyn belled yn ôl ag 1 Tachwedd 2000 (sef y dyddiad y cyflwynwyd consesiwn trwydded Dros 75 am ddim). |
| Pob achos arall | 2 flynedd (sylwer bod hyn yn 2 flynedd galendr o pan dderbynnir y cais, beth bynnag fo dyddiadau dod i ben y drwydded). |

Yn ogystal â'r symiau a nodir uchod, bydd unrhyw daliadau a wnaed mewn perthynas â phob mis cyflawn sy'n parhau ar y drwydded bresennol yn cael eu had-dalu.

### 3.5 Ad-daliadau ar gyfer Trwyddedau 'dyblyg' a delir drwy Ddebyd Uniongyrchol

Os oes trwydded ddyblyg mewn cyfeiriad a'r unigolyn yn mynnu ei fod wedi hysbysu Trwyddedu Teledu nad oedd arno angen y ddwy drwydded ond bod Trwyddedu Teledu wedi parhau i gasglu taliadau trwy Ddebyd Uniongyrchol, a bod yr unigolyn yn methu darparu tystiolaeth ei fod wedi hysbysu Trwyddedu Teledu nad oedd arno angen trwydded, byddwn yn ystyried hyn yn gamgymeriad gan Drwyddedu Teledu yn amodol ar fodloni rhai meini prawf.

Yn benodol, bydd Trwyddedu Teledu yn derbyn hawliad y cwsmer ac felly'n ad-dalu cyfnod llawn y taliad diangen neu chwe blynedd (pa un bynnag yw'r byrraf) lle:

- mae gan gwsmer ddebyd uniongyrchol dyblyg diangen sy'n mynd yn ôl dros ddwy flynedd; AC
- mae'n mynnu iddo gysylltu â Thrwyddedu Teledu dros ddwy flynedd yn ôl yn gofyn iddo gael ei atal (er na roddir tystiolaeth o hyn); AC
- na chafodd y debyd uniongyrchol ei atal; AC
- mae'r cwsmer un ai'n talu trwy ddebyd uniongyrchol blynyddol neu chwarterol (ond nid misol); AC
- nad yw'r taliadau ar gyfer y debydau uniongyrchol dyblyg yn cael eu casglu o'r un cyfrif banc yn yr un misoedd calendr.

Fodd bynnag, lle na ellir bodloni'r holl feini prawf uchod, bydd Trwyddedu Teledu yn rhoi uchafswm ad-daliad o ddwy flynedd.[2]

---

[2] Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar hawliau bancio unigolyn dan y Warant Debyd Uniongyrchol.

Efallai y bydd Trwyddedu Teledu yn cynnal gwiriadau ychwanegol i hawliadau am ad-daliad mewn perthynas â thrwyddedau ‘dyblyg’ lle bydd yn ymddangos bod trwyddedau lluosog mewn grym oherwydd bod lleoedd trwyddedadwy lluosog yn y cyfeiriad.

### 3.6 Senarios lle gall ad-daliadau gael eu talu[3]

Sylwer; mae'n debygol y bydd achosion lle bydd angen gwneud penderfyniad mewn perthynas ag amgylchiadau penodol achos.

Yn amodol ar Adran 3 a pharagraff 3.4, telir ad-daliadau ar gyfer misoedd cyflawn.

| Rhif | Senario | Disgrifiad o senario ychwanegol | Efallai y telir mewn perthynas â: | Tystiolaeth angenrheidiol/ croeswirio[4] | Gellir talu'r ad-daliad i[5]: |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Ddim yn defnyddio derbynnydd teledu bellach** | Rhaid peidio â bod angen y drwydded eto yn ystod cyfnod y drwydded | MIsoedd cyflawn[6] lle nad oedd angen trwydded. | - | Os yw'r hawliad oherwydd marwolaeth deiliad y drwydded, gall yr ad-daliad gael ei dalu i gynrychiolydd personol[7] deiliad y drwydded.<br><br>Os bydd deiliad y drwydded yn analluog gall 3ydd person wneud cais am ad-daliad, fodd bynnag, rhaid i'r ad-daliad gael ei dalu i ddeiliad y drwydded.<br><br>Ym mhob achos arall, rhaid i'r ad-daliad gael ei dalu i ddeiliad y drwydded. |

[3] Gweler 'Ad-daliadau ar gyfer trwyddedau a delir drwy Ddebyd Uniongyrchol' am senarios yn ymwneud â thrwyddedau debyd uniongyrchol dyblyg.
[4] Sylwer bod y rhan fwyaf o'r gofynion tystiolaethol i'w penderfynu ar y lefel weithredol.
[5] Er dibenion y polisi hwn, bydd unigolyn â Phŵer Atwrnai dros Ddeiliad y Drwydded yn cael ei drin fel Deiliad y Drwydded tra bydd deiliad y drwydded yn fyw.
[6] Yn amodol ar y drwydded yn bod mewn grym adeg y cais, neu os cafodd ei chanslo'n flaenorol, bod â dyddiad dod i ben diwygiedig ar neu ar ôl 1af Ebrill 2017.
[7] Cynrychiolydd personol yw unigolyn sydd ag awdurdod cyfreithiol i gynrychioli'r sawl a fu farw, er mwyn cwblhau materion yr unigolyn hwnnw a gweinyddu ei ystad yn unol â'r ewyllys neu'r gyfraith.

| Rhif | Senario | Disgrifiad o senario ychwanegol | Efallai y telir mewn perthynas â: | Tystiolaeth angenrheidiol/ croeswirio[4] | Gellir talu'r ad-daliad i[5]: |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Wedi'i drwyddedu gan drwydded arall** | Mae'n codi pan fydd rhywun yn symud i gyfeiriad sydd â thrwydded yn barod (e.e. yn symud i mewn gyda phartner ac ati) | MIsoedd cyflawn[8] lle nad oedd angen trwydded. | Cymharu â'r cyfeiriad newydd i sicrhau bod y cyfeiriad newydd wedi'i drwyddedu. | Deiliad y drwydded yn unig |
| 3 | **Trwyddedau a brynwyd trwy gamgymeriad** | E.e. trwyddedau dyblyg wedi'u prynu | MIsoedd cyflawn lle nad oedd angen trwydded. | - | Deiliad y drwydded yn unig |
| 4 | **Wedi prynu cerdyn newydd** | E.e. Symud i ARC Atodiad 5 neu drwydded ar ffurf luosog | Misoedd cyflawn o'r dyddiad y digwyddodd y newid i'r drwydded newydd. | - | Deiliad y drwydded yn unig |
| 5 | **Newid yn y gyfraith** | - | Misoedd cyflawn o'r dyddiad y daeth y newid yn y gyfraith i rym. | - | I'w ystyried yng ngoleuni'r amgylchiadau perthnasol a all godi yn sgil unrhyw newid yn y gyfraith. |
| 6 | **Dod yn gymwys i gael ad-daliad ar drwydded gonsesiwn i bobl ddall** | Cwsmer yn dod yn gymwys, neu'n darganfod ei fod yn gymwys i gael consesiwn i bobl ddall | Misoedd cyflawn, hyd at uchafswm o gyfanswm y ffi a dalwyd (y flwyddyn) ar gyfer trwydded gonsesiwn i bobl ddall (hanner cost trwydded safonol). | Trwydded + prawf drwy gydol y cyfnod perthnasol o fod yn gymwys ar gyfer y consesiwn i bobl ddall (os na allwn weld bod ad-daliad yn ddyledus o'n cofnodion ein hunain). | Deiliad y drwydded yn unig. |

[8] Yn unol â throednodyn 6.

| Rhif | Senario | Disgrifiad o senario ychwanegol | Efallai y telir mewn perthynas â: | Tystiolaeth angenrheidiol/ croeswirio.[4] | Gellir talu'r ad-daliad i[5]: |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **7** | **Ad-daliadau ar gyfer trwyddedau gwestai** | Nid yw'r rhain ar gael oni bai iddynt gael eu prynu trwy gamgymeriad neu os yw'r gwesty yn cau i lawr (yn barhaol neu dros dro). Rhaid peidio â bod angen y drwydded eto yn ystod cyfnod y drwydded. | MIsoedd cyflawn lle nad oedd angen trwydded | | Deiliad y drwydded |
| **8** | **Cwsmer yn troi 75 cyn 31 Gorffennaf 2020 a bu'n talu am drwydded trwy gamgymeriad** | Daw'r cwsmer yn gymwys, neu mae'r cwsmer yn canfod ei fod yn gymwys i gael trwydded Dros 75 cyn 31 Gorffennaf 2020.<br><br>Mae'r cwsmer yn gymwys i dderbyn ad-daliad am y drwydded y talwyd amdani ar gyfer y cyfnod lle'r oedd dros 75, hyd at 31 Gorffennaf 2020. | O'r cyntaf o fis pen-blwydd y trwyddedai dros 75, hyd at gyn belled yn ôl ag 1 Tachwedd 2000 hyd at 31 Gorffennaf 2020. | Prawf oedran | Deiliad y drwydded /Person ag awdurdod |
| **9** | **Dros 75 ac yn derbyn Credyd Pensiwn o'r 1af** Awst 2020 ac a all fod yn talu am drwydded trwy gamgymeriad | Daw'r cwsmer yn gymwys, neu mae'r cwsmer yn canfod ei fod yn gymwys i gael trwydded dros 75 | O'r cyntaf o'r mis y mae'r cwsmer dros 75 mlwydd oed a hefyd yn derbyn Credyd Pensiwn. | Prawf oedran ac yn derbyn Credyd Pensiwn | Deiliad y drwydded /Person ag awdurdod |

| Rhif | Senario | Disgrifiad o senario ychwanegol | Efallai y telir mewn perthynas â: | Tystiolaeth angenrheidiol/ croeswirio.[4] | Gellir talu'r ad-daliad i[5]: |
|---|---|---|---|---|---|
| | | P2020 am ddim, o'r 1af Awst 2020.<br>Mae'r cwsmer yn gymwys i dderbyn ad-daliad ar gyfer y cyfnod y talwyd am drwydded pan oedd dros 75 a hefyd yn derbyn Credyd Pensiwn.<br>Os gwnaeth y cwsmer droi 75 cyn 1af Awst 2020, mae'n dod dan senario 8 uchod. | Os ar unrhyw adeg o'r 1af Awst 2020 roedd y cwsmer dros 75 ond nad oedd yn derbyn Credyd Pensiwn, yna ni fydd y cyfnod hwn yn gymwys ar gyfer ad-daliad. | | |
| **10** | **Ad-daliadau i ystadau ymadawedig lle'r oedd y cwsmer yn dod dan senario 8 neu 9** | Mewn senarios lle mae cwsmer dros 75 wedi marw a bod cais am ad-daliad yn cael ei dderbyn gan yr ystad, mae'r canlynol yn berthnasol:<br>Os oedd y cwsmer yn dod dan senario 8, rhaid cynnal adolygiad* llawn i gefnogi taliad trwy gamgymeriad.<br>Os oedd y cwsmer yn dod dan senario 9, dilynwch gyfarwyddiadau'r senario | Senario 8: Yn dilyn adolygiad llawn, os yw taliad yn debygol o fod wedi'i wneud trwy gamgymeriad, ad-dalwch yn unol â senario 8.<br>Senario 9: Ad-dalwch yn unol â senario 9. | Gellir gofyn i berson sy'n datgan ei fod yn delio â materion deiliad trwydded ymadawedig neu dalwr ddarparu prawf dogfennol megis tystysgrif marwolaeth, copi o grant gweinyddu neu lythyrau gweinyddu perthnasol. | Lle mae deiliad y drwydded wedi marw ond y byddai wedi bod â hawl i gael ad-daliad, cynrychiolydd personol deiliad y drwydded/ystad. |

| Rhif | Senario | Disgrifiad o senario ychwanegol | Efallai y telir mewn perthynas â: | Tystiolaeth angenrheidiol/ croeswirio.[4] | Gellir talu'r ad-daliad i[5]: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodyn ar gyfer Senario 9: Os yw cwsmer dros 75 ac NAD yw'n derbyn Credyd Pensiwn o'r 1af Awst 2020, nid yw'r cwsmer yn gymwys i gael ad-daliad ar unrhyw swm a delir ar ôl 1af Awst 2020. Os gwnaeth y cwsmer droi 75 cyn 1af Awst 2020, mae'n dod dan senario 8 uchod.**<br>*Byddai adolygiad llawn yn unol â gweithdrefnau ad-dalu | | | | | |

Y mae ad-daliadau ar drwyddedau consesiwn eraill ar gael yn unig yn ystod oes deiliad y drwydded.

Ym mhob achos, bydd blaendaliadau o ganlyniad i Ddebyd Uniongyrchol yn cael eu dychwelyd i'r talwr yn hytrach nag i ddeiliad y drwydded lle mae'r rhain yn unigolion gwahanol.

Dylech nodi hefyd yn achos trwyddedau ar ffurf luosog, byddai'r ad-daliad yn cael ei dalu i'r ymgeisydd yn hytrach nag i ddeiliad y drwydded.

### 3.7 Trwydded nad oes mo'i hangen eto yn ystod cyfnod y drwydded

Rhaid i ddeiliad y drwydded allu cadarnhau na fydd arno/arni angen y drwydded eto yn ystod oes cyfnod y drwydded. Mae'r rheol hon yn bwysig er mwyn sicrhau y gellir parhau i orfodi fframwaith ffi'r drwydded.

### 3.8 Ad-daliadau ar drwyddedau consesiwn

Trwyddedau gwestai (Atodiad 5)

Ni ellir gwneud cais am ad-daliadau ar drwydded gonsesiwn a gyflwynwyd oni bai fod y drwydded gonsesiwn wedi'i phrynu trwy gamgymeriad neu, yn achos gwesty, os bydd y gwesty yn cau i lawr (boed hynny'n barhaol neu dros dro) neu oherwydd nad oes ar y gwesty angen trwyddedau bellach ar gyfer unrhyw rai o'i ystafelloedd gwely.

Trwyddedau Dros 75

Nid yw ad-daliadau yn daladwy ar drwyddedau consesiwn Dros 75 a gyflwynwyd.

Trwyddedau ARC (Atodiad 4)

Nid yw ad-daliadau yn daladwy ar drwyddedau ARC a gyflwynwyd.